CEI LLECHI

Canllawiau ag amodau i darpar denantiaid

Amodau Cyffredinol

1.Bydd rhaid i darpar denantiaid ddangos yn glir eu bod yn creu, gwneud a gwerthu nwyddau sydd am gael eu gwerthu o'r unedau.

2.Bydd rhaid i'r ardal creu a gwneud fod mewn safle canolig o fewn yr uned a bod yn weladwy i unrhyw ymwelydd.

3.Gall y nwyddau canlynol fod yn addas; gemwaith, gwaith coed, metal, gwydr, llechi, bwyd a diod artisan, cerfluniau, crefftau hanesyddol neu nwyddau penodol eraill i'w cytuno arnynt.

4.Ni ystyrir bydd gweithgareddau addysgiadol ag hyfforddi, ohonynt eu hunan, yn ddigon o gyfiawnhad i ganiatau tenantiaeth ond mae'n bosib gall y gweithgareddau hyn fod yn dderbyniol os ydynt cael eu gweithredu yn ychwanegol i weithgareddau eraill sy'n cyfarfod a chanllawiau ag amcanion y safle.

5.Ni ystyrir bydd gweithgareddau manwerthu nag arddangos yn unig yn cyfarfod y canllawiau sylfaenol.

6.Ni ystyrir bod gweithgaredd sy'n cyfuno nwyddau, sydd wedi eu cynhyrchu oddi ar y safle, at eu gilydd yn cyfarfod gyda'r canllawiau sylfaenol.

7.Bydd mentrau sy'n gallu dangos cysylltiad a pherthnasedd clir at ddaearyddiaeth, hanes a diwylliant ardal Caernarfon / Gwynedd yn cael eu hannog. Rhoddir ffafriaeth tuag at geisiadau sydd yn gallu dangos eu bod nhw "o'u lle".

8.Rhaid i ymgeiswyr ddangos sut maent am barchu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn eu gweithgareddau.

Amodau cynaladwyedd ag amgylcheddol

9.Rhaid i ymgeiswyr fedru dangos sut bydd eu gweithgareddau'n cyfarfod safonau cynnal yr amgylched a chynaladwyedd.

10.Rhoddir blaenoriaeth i weithgareddau sy'n gallu dangos eu bod yn defnyddio deunyddiau crai o'r ardal leol.

11.Ni roddir ystyriaeth ffafriol at weithgareddau sy'n defnyddio nwyddau sydd wedi eu mewn forio.

Ystyriaethau ar gyfer unedau penodol

12.Mae'r gefail (Uned 5) wedi ei ddylunio a'i adnewyddu'n benodol i fod ar gael ar gyfer crefftwyr sy'n creu nwyddau metal, gwydr neu llechi sydd yn gofyn am broses cynhyrchu sydd angen gwres. Ni roddir ystyriaeth ffafriol i unrhyw ddefnyddiau eraill yn yr uned hon.

13.Mae caniatad cynllunio ar gyfer defnydd bwyd a diod wedi ei roi ar unedau 6, 7, 14 ag 17 yn unig. Ni annogir mwy o unedau o'r math ar y safle ac mi fydd yn ofynnol ar darpar denantiaid i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar unedau eraill ar gost eu hunan.

Newidiadau ar ôl meddiannu uned

14.Bydd darpar denantiaid sydd wedi camarwain Galeri er mwyn sicrhau tenantiaeth neu a sydd wedi newid eu gweithgareddau'n unfrydol ers meddiannu yn cael eu hystyried wedi torri amodau eu les.